Ymchwil Gymdeithasol Rhif: 45/2017

Dyddiad cyhoeddi: 28/09/2017

# Llywodraeth Cymru Gwerthusiad Terfynol o'r Rhaglen Gynorthwyo Allforio

## Crynodeb Gweithredol

### 1. Trosolwg o'r Rhaglen

1.1 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru benodi Public and Corporate Economic Consultants [Ymgynghorwyr Economaidd Cyhoeddus a Chorfforaethol] (PACEC) i gynnal gwerthusiad terfynol o'r Rhaglen Gynorthwyo Allforio (y Rhaglen) a ariennir gan yr UE. Cychwynnodd y Rhaglen ym mis Ebrill 2009 a chafodd ei chwblhau ym mis Mehefin 2015. Craidd y Rhaglen oedd '*hyrwyddo a chefnogi'r broses o ryngwladoli busnesau mewn chwe sector economaidd allweddol yn ogystal â chwmnïau y tu allan i'r sectorau sydd o bwysigrwydd strategol i Gymru'* er mwyn eu galluogi i gystadlu mewn marchnadoedd byd-eang.

1.2 Mae'r Rhaglen yn cynnwys y pedwar ymyriad dilynol:

- **Datblygu Masnach Ryngwladol (ITD**): Rhaglen gynhwysfawr o weithdai mentora a hyfforddi un wrth un sy'n caniatáu i allforwyr dibrofiad ddatblygu a chryfhau eu sgiliau allforio ac sy'n galluogi allforwyr mwy profiadol i adnewyddu eu gwybodaeth a chael diweddariad ar arfer orau gyfredol;
- **Cyfleoedd Masnach Rhyngwladol (ITO)**: Mae hwn yn darparu cyngor masnach rhyngwladol i gwmnïau ac mae'n nodi cyfleoedd posibl mewn marchnadoedd tramor;
- **Cenadaethau ac Arddangosfeydd Masnach**: Mae hwn yn cefnogi allforio trwy ymweliadau masnach ag Asia, y Dwyrain Canol a Gogledd America, yn cynnig cyfraniad o 50 y cant tuag at gostau teithio a llety; ac

- **Ymweliadau Datblygu Busnes Tramor (OBDV):** Mae hwn yn darparu cymorth tuag at gostau ymweliadau datblygu busnes â marchnadoedd tramor. Gall hyn gynnwys costau arddangos mewn ffeiriau masnach a theithio i gyfarfodydd gyda chwsmeriaid posibl, ond nid i wasanaethu perthnasau neu gontractau presennol. Mae'r grant ar gyfer 50 y cant o gostau cymwys hyd at uchafswm o £10,000.

1.3 Canolbwyntiwyd prif fuddion y Rhaglen ar gynyddu gweithgarwch allforio, creu a chynnal swyddi a gwella proffidioldeb cwmnïau a leolir yng Nghymru. Fodd bynnag, rhagwelwyd hefyd y byddai buddion eilaidd i economi Cymru trwy wella cynhyrchiant Busnesau Bach a Chanolig Cymreig (BBaChau). Meini prawf allweddol ar gyfer cynnwys busnes oedd iddo fod yn BBaCh, ei fod wedi'i leoli yn Ardal Gydgyfeirio Cymru ac y byddai ei weithgarwch allforio, heb gymorth, yn cael ei gyfyngu.

## 2. Cwmpas a nodau'r gwerthusiad

2.1 Fe wnaeth y gwerthusiad anelu at ddadansoddi effeithiolrwydd prosesau, mesur yr effeithiau net ac asesu gwerth am arian y Rhaglen Gynorthwyo Allforio, tra'n sicrhau hefyd bod y gwerthusiad yn diwallu gofynion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

2.2 Roedd nodau'r gwerthusiad fel sy'n dilyn:

- Cynnal gwerthusiad cynhwysfawr o weithgarwch a chanlyniadau'r Rhaglen Gynorthwyo Allforio yn ôl dangosyddion perfformiad allweddol fel y'i hamlinellir yng nghynllun busnes y rhaglen;
- Asesu effeithiau cyflenwi'r rhaglen o ran cyflawni nodau ac amcanion y rhaglen a amlinellir yng nghynllun busnes y rhaglen;
- Deall gwerth ychwanegol y rhaglen ar gyfer ei buddiolwyr a rhanddeiliaid ynghylch y pecynnau cymorth a gynigir; a
- Mynd i'r afael â chyflenwad a chyflawniad y rhaglen yn ôl y themâu trawsdorri(CCT) nodau, amcanion a dangosyddion cysylltiedig â CCT a amlinellir yn eu cynllun busnes.


2.3 Yn gryno, ceisiodd y gwerthusiad hwn o'r rhaglen asesu y gwerth cyffredinol am arian ac effaith y gyfres o ymyriadau a ddarperir gan y rhaglen Gynorthwyo Allforio dros y cyfnod 2009 - 2015. Aseswyd effaith ymyriadau unigol trwy astudiaethau achos.

## 3. Dulliau gwerthuso

3.1 Roedd angen ystod o ddulliau, gan gynnwys ymagweddau ansoddol a meintiol fel ei gilydd i asesu effeithiolrwydd y cyflenwad ac effaith y Rhaglen.

3.2 Mae ein hymagwedd wedi'i chrynhoi yn y diagram isod:

**Ffigur** Error! No text of specified style in document.**.1: Ein Methodoleg**




Ffynhonnell: PACEC 2015

### Cyfyngiadau Methodolegol

3.3 Mae nifer o gyfyngiadau wedi effeithio ar y broses werthuso.

3.4 Roedd cyfyngiadau cysylltiedig â'r arolwg yn cynnwys:

- Gwybodaeth gyswllt gyfredol a chywir heb fod ar gael ar gyfer oddeutu un traean o fuddiolwyr y rhaglen; ac
- Oddeutu 30 y cant o ymatebwyr i'r arolwg heb allu cofio'r cymorth roeddynt wedi'i dderbyn gan Gynorthwyo Allforio. Ffactorau allweddol yn cyfrannu i hyn oedd:
- Hyd yr amser oedd wedi mynd heibio rhwng bod y cwmni'n derbyn cymorth a gweithredu'r arolwg/gwerthusiad. Mewn nifer o achosion, roedd staff allweddol o fewn sefydliadau oedd wedi buddio wedi gadael ac/neu nid oeddynt yn cofio manylion ynghylch y cymorth roedd y sefydliad wedi'i dderbyn; a
- Diffyg dealltwriaeth gan fuddolwyr o'r math o gymorth roeddynt wedi'i dderbyn (h.y. ITO, ITD ac ati) ac a oedd y cymorth wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru neu un o'i sefydliadau blaenorol.

3.5 Roedd gwybodaeth am y rhaglen yn absennol neu'n anghyflawn mewn cysylltiad â:

- Themâu trawsdorri;
- Y Gofrestr Risg;
- Cyfathrebu a Strategaeth Farchnata; a
- Thargedau cyflenwi yn ôl targedau.

3.6 Oherwydd absenoldeb data annibynnol ynghylch perfformiad BBaChau nad oeddynt yn cymryd rhan o Ardal Gydgyfeirio Cymru rydym wedi defnyddio cwestiynau safonol yn yr arolwg i asesu sefyllfa cyn yr ymyriad ac wedi'r ymyriad ar gyfer pob ymatebydd ac wedi defnyddio'r wybodaeth hon fel asesiad o effaith gyffredinol y rhaglen. Hefyd rydym wedi meincnodi perfformaid â rhaglen gymaradwy o gymorth allforio a gyflenwir gan Invest NI yng Ngogledd Iwerddon. Mae gan Gyfres o Ymyriadau Masnach Invest NI yr un ystod o gymhorthion busnes â Rhaglen Gynorthwyo Allforio Llywodraeth Cymru ac mae'n cael ei chyflenwi mewn ardal economaidd gymaradwy.

3.7 Rydym wedi asesu ac adrodd ar berfformiad rhaglen lle roedd ffynhonnell gadarn o wybodaeth ar gael. O dan amgylchiadau lle roedd bylchau sylweddol yn yr wybodaeth, rydym wedi amlygu'r bylchau hyn ac wedi gwneud argymhellion ynghylch sut gellir mynd i'r afael â hwy.

## 4. Canfyddiadau

4.1 Mae canfyddiadau allweddol y gwerthusiad hwn fel sy'n dilyn:

### Cyflenwi yn ôl targedau

4.2 Datblygwyd y Rhaglen Gynorthwyo Allforio er mwyn cyflenwi:

- Cynnydd o ran galluogrwydd a chapasiti BBaChau newydd a phresennol i fasnachu ar lefel ryngwladol;
- Cynnydd o ran nifer y BBaChau newydd a phresennol sy'n masnachu ar lefel ryngwladol (gan greu allforwyr newydd); a
- Chynnydd o ran gwerth/maint masnach ryngwladol ymhlith BBaChau â chymorth.

4.3 Mae’r tabl isod yn crynhoi’r perfformiad yn ôl metrigau/targedau allweddol fel y’i hysbyswyd i WEFO dros gyfnod y Rhaglen.

**Tabl 1.1: Perfformiad y Rhaglen**

| | Blaenoriaeth ERDF 2 Targed | Targed Arfaethedig y Rhaglen Gynorthwyo Allforio | Wedi'i gyflawni |
|---|---|---|---|
| **Allbynau** | | | |
| Mentrau a Gynorthwywyd | 9,000 | 652 | 459 |
| Mentrau a gefnogwyd yn ariannol | 900 | 102 | 111 |
| **Canlyniadau** | | | |
| Cyfanswm y Swyddi a Grëwyd | 11,000 | 170 | 3 |
| Budd Elw | £143.1miliwn | £408,000 | £825,550 |
| Cynnydd o ran lefel allforio | £34.65miliwn | £112,608,000 | £144,005,750 |

Ffynhonnell: Adroddiad Chwarterol: Awst 2015

4.4 Yn dilyn ymgynghori â'r Tîm Rheoli Rhaglen, rydym yn ymwybodol nad oedd digon o adrodd i WEFO ar gyfer dau darged: Mentrau â Chymorth a Chyfanswm Swyydi a Grëwyd. Mae WEFO'n mynnu bod rhaid cael tystiolaeth fanwl gefnogol o'r cwmni sy'n buddio ar gyfer pob allbwn yr adroddir yn ei ôl. Mae hyn wedi bod yn arbennig o anodd ar gyfer cwmnïau nad ydynt wedi derbyn cymorth ariannol (Mentrau â Chymorth) ac ar gyfer y rhai hynny sy'n gorfod pennu creu swyddi o ganlyniad i'r Rhaglen.

4.5 Mae gan gronfa ddata Llywodraeth Cymru ei hunan wybodaeth berfformiad fwy cynhywysfawr ar gyfer pob un o'r targedau. Fodd bynnag, mae gwybodaeth berfformiad a gyflwynir i WEFO'n is-set yn unig (oherwydd nad yw llawer o'r allbynau o ganlyniad i wybodaeth gefnogol annigonol yn anghymwys) o wybodaeth a goladwyd (h.y. er bod 683 o gwmnïau wedi'u cynorthwyo hyd yn hyn, dim ond 459 a adroddwyd i WEFO.

4.6 Credwn fod y gwahaniaeth hwn rhwng adrodd perfformiad mewnol Llywodraeth Cymru ei hunan a'r hyn a gyflwynwyd i WEFO'n dangos naill ai diffyg o ran cadw cofnodion neu analluogrwydd i gael gafael ar fanylion cyfranogwyr.

4.7 Fe wnaeth arolwg PACEC ddarganfod bod 55 y cant o ymatebwyr wedi'u recriwtio'n weithredol i'r Rhaglen Gynorthwyo Allforio gan Gynghorwyr Busnes Llywodraeth Cymru,

â 12 y cant yn unig yn cael gwybod am y Rhaglen naill ai trwy ymgyrch bostio neu'r cyfryngau cymdeithasol. Byddai hyn yn awgrymu bod y Rhaglen yn canolbwyntio ar gefnogi allforwyr profiadol sy'n dymuno ehangu/arallgyfeirio eu gweithgareddau allforio.

4.8 Mae'r ffocws hwn ar 'allforwyr profiadol' wedi golygu bod cyfran uwch o fentrau'n derbyn cymorth ariannol (47 y cant), nag yr hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Nid yw allforwyr profiadol yn manteisio ar gymhorthion cyflwyniadol megis ITO ac ITD a maent yn chwilio'n weithredol am yr ymyriadau hynny sy'n darparu cymorth ariannol (megis Cenadaethau Masnach ac OBDV).

4.9 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai adnoddau cyfyng yn unig sydd ar gael i Lywodraeth Cymru a bod hyrwyddo'r Rhaglen trwy Gynghorwyr Busnes Llywodraeth Cymru a'u cleientiaid sefydledig (sydd fel arfer yn allforwyr presennol), yn hytrach na chanolbwyntio ar gwmnïau nas rheolir gan gleientiaid (sy'n ymgeisio trwy'r porth ar-lein ac nad ydynt yn allforwyr fel arfer), yn cyflwyno effaith ariannol uwch yn ôl cyfran, ond â'r gost o ddifuddiant uwch. Byddai difuddiant wedi bod yn sylweddol is pe byddai'r Rhaglen wedi cynorthwyo mwy o allforwyr tro-cyntaf.

**Asesu Addasrwydd i'r Diben Ymyriadau**

4.10 Fe wnaeth ymatebwyr fynegi'r farn bod Cynorthwyo Allforio'n addas i'r diben ar y cyfan o ran ymyriadau gan ei bod yn trafod y methiannau dilynol yn y farchnad:

- Problemau Gwybodaeth Anghymesur/Cydgysylltu Rhwydweithio: Fe wnaeth y Rhaglen drafod hyn trwy ddarparu gwybodaeth sectorol/marchnad a hefyd gymorth yn y farchnad gan arbenigwyr sectorol sy'n nodi cleientiaid posibl ar gyfer cwmnïau Cymreig;
- Rhwystrau Ariannol: Fe wnaeth y Rhaglen drafod hyn trwy ddarparu cymorth ariannol i gwmnïau, a thrwy hynny'n eu galluogi i ymweld â marchnadoedd targed ac i ddatblygu cysylltiadau; ac
- Effaith Arddangos: Fe wnaeth y Rhaglen drafod hyn trwy arddangos buddion allforio gan y defnydd o fentora a gweithdai, yn arwain at nodi a chyflenwi cenadaethau masnach i farchnadoedd targed.
- Fe wnaeth yr holl ymatebwyr werthfawrogi'r hygyrchedd oedd yn gysylltiedig â'r Rhaglen, sef y gallai meini prawf cymhwysedd a gweithgareddau dangosol gael eu dehongli'n eang ac felly byddai hyn yn caniatáu'r mwyafrif o fathau o gymorth.

**Asesu Gwerth Ychwanegol**

4.11 Rydym yn amcangyfrif bod y Rhaglen Gynorthwyo Allforio wedi cyfrannu £19.3miliwn ychwanegol i'r economi Cymreig ac wedi creu/cynnal 780 o swyddi â GVA cyfartalog i bob swydd o £45,474 (20 y cant yn uwch na chyfartaledd Cymru). Dylid sylwi bod gan y Rhaglen lefel uchel o ddifuddiant (40 y cant) gan ei bod yn canolbwyntio cymorth ar allforwyr presennol sy'n dymuno arallgyfeirio i farchnadoedd eraill.

4.12 O gymharu â'r rhaglen Cyfres o Ymyriadau Masnach Invest NI sy'n llawer mwy, mae Cynorthwyo Allforio'n perfformio'n gymharol dda o ran cost i bob swydd ychwanegol (£7,179 i £12,973 Invest NI) a'r gymhareb cost-budd (1:3.5 i 1:4 Invest NI).

4.13 Hefyd mae tystiolaeth gref sy'n awgrymu bod Cynorthwyo Allforio wedi arwain at ddatblygu ac ymgorffori ffyrdd newydd ac arloesol o weithio ymhlith cwmnïau sy'n buddio a ddylai, yn y tymor hwy, wella cynhyrchiant, gan gynnwys:

- Roedd deunaw o ymatebwyr wedi datblygu strategaeth/cynllun gweithredu rhyngwladol;
- Roedd un deg chwech o ymatebwyr wedi addasu cynhyrchion ar gyfer marchnadoedd newydd;
- Roedd deuddeg o ymatebwyr wedi datblygu cynhyrchion newydd; ac
- Roedd un deg un o ymatebwyr wedi datblygu rhaglen ymchwil a datblygu ryngwladol ar y cyd.

4.14 Hefyd mae ein harolwg o fuddiolwyr a chyfweliadau dwfn â chynrychiolwyr buddiolwyr yn amlygu'r datblygiad o drefniadau partneru tramor newydd (gan 76 o ymatebwyr i'r arolwg), a allai adlewyrchu'r symudiad tuag at weithio mewn marchnadoedd gwahanol o ran pellter/diwylliant.

4.15 Credwn fod Cynorthwyo Allforio'n cynnig gwerth da am arian a'i bod wedi cyflawni enillion ariannol uwch na Chyfres o Ymyriadau Masnach Invest NI. Fodd bynnag, mae wedi cyflawni hyn trwy ganolbwyntio ar allforwyr profiadol, ac mae hyn wedi arwain at lefel sylweddol o ddifuddiant. Byddai difuddiant wedi bod yn sylweddol is pe byddai'r Rhaglen wedi cynorthwyo mwy o allforwyr tro-cyntaf.

**Effaith ar Themâu Trawsdorri (CCT)**

4.16 Ar hyn o bryd, nid oes gan WEFO 'dargedau CCT' penodol, dim ond targedau dangosol a allai berthyn i'r CCTs. Yn dilyn ymgynghori â'r Tîm Rheoli Rhaglen sylwyd nad oedd WEFO wedi gosod unrhyw dargedau dangosol ynghylch CCT ar gyfer y Rhaglen Gynorthwyo Allforio, ond ei fod wedi nodi nifer o weithgareddau dangosol a fyddai, pe byddent yn cael eu cyflenwi, yn sicrhau cydymffurfiad.

4.17 Fe wnaeth PACEC adolygu cyflenwad y Rhaglen yn ôl y ddwy thema Drawsdorri ac mae'n sylwi bod y camau gweithredu lliniarol a gymerwyd gan y Tîm Cyflenwi Rhaglen a'i is-gontractwyr wedi'u gweithredu'n gynhwysfawr gan sicrhau'r effaith negyddol leiaf.

4.18 Fodd bynnag, mae'r absenoldeb o dargedau CCT penodol yn golygu nad yw'n bosibl ar hyn o bryd i arddangos Gwerth Ychwanegol y Rhaglen ar gyfer y ddwy Thema Drawsdorri. O ganlyniad mae angen i dargedau CCT gael eu cytuno gydag WEFO ar gyfer unrhyw Raglen ganlynol.

**Arolwg o Gyflenwi'r Rhaglen/Nodi Arferion Da**

4.19 Nid oes gan y Rhaglen strategaeth gyfathrebu ffurfiol yn ei lle. Daeth effeithiau negyddol hyn yn amlwg yn ystod yr ymarfer ymgynghori pan oedd diffyg ymwybyddiaeth o rôl Llywodraeth Cymru yn y broses o gyflenwi Cynorthwyo Allforio a derbyniad isel o'r Rhaglen gan gwmnïau nas rheolir gan gleientiaid. Fodd bynnag, gallai hyn hefyd bod oherwydd penderfyniad strategol gan Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar gwmnïau a reolir gan gleientiaid ar hyn o bryd.

4.20 Fe wnaeth PACEC adolygu Cofrestr Risg Cynorthwyo Allforio gan sylwi nas adroddwyd unrhyw risgiau yn ystod y cyfnod o weithredu'r rhaglen. Er nas adroddwyd yn y gofrestr risg, ymgymerwyd â'r camau gweithredu dilynol:

- Yn dilyn adborth negyddol gan gleientiaid ar nifer fach o gontractwyr allanol, fe wnaeth y Tîm Cyflenwi aildendro ei gontractau cyflenwi allanol ar gyfer ITO, ITD a Chenadaethau Masnach/Arddangosfeydd er mwyn darparu rhestr hir o is-gontractwyr ar gyfer pob ymyriad y gallai cyfranogwyr ddewis gwasanaethau ganddynt; ac
- Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ehangu ei hofferyn Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid â chronfeydd data ychwanegol er mwyn cipio holl allbynau a chanlyniadau'r Rhaglen.

4.21 Rydym yn sylwi bod rheolaeth effeithiol o'r rhaglen wedi'i rhwystro gan:

- Y ffaith bod data ynghylch allbynau a chanlyniadau'n anghyflawn (h.y. ni chofnodwyd unrhyw weithgarwch oherwydd diffyg gwybodaeth gefnogol);
- Absenoldeb risgiau allweddol o gofrestr risg y rhaglen;
- Absenoldeb targedau CCT i adrodd yn eu hôl; ac
- Absenoldeb strategaeth gyfathrebu.

4.22 Ar y cyfan mae'r Tîm Rhaglen wedi bod yn llwyddiannus o ran cyflenwi'r Rhaglen. Credwn fod y problemau a amlygwyd uchod wedi digwydd o ganlyniad i adnoddau cyfyng i raddau helaeth. Er enghraifft, gellir cymharu Rhaglen Gynorthwyo Allforio Cymru â Phortffollio Cymorth Masnach Invest NI. Fodd bynnag, mae cyllideb Gymorth Masnach Invest NI oddeutu pedair gwaith yn fwy na Llywodraeth Cymru ac mae ganddo fwy o gymorth gweinyddol.

**Gwersi a Ddysgwyd ar Gyflenwi'r Rhaglen**

4.23 Mae nifer o broblemau sy'n cyfyngu effeithiolrwydd cyflenwi'r rhaglen, sef:

- Diffyg cymorth gweinyddol - i raddau helaeth gellir priodoli tanwariant y Rhaglen o £660,771, nad ystyriwyd £656,990 ohono'n gymwys oherwydd methiant gan y Tîm Rheoli Rhaglen i gyflwyno dalenni amser ar gyfer hawliadau cyflog a theithio a chynhaliaeth, i absenoldeb cymorth gweinyddol;
- Ymhellach nid ystyrir bod ffeiriau masnach yn addas i'r diben, gan nad ydynt yn darparu mynediad i asiantau/rhwydweithiau dosbarthu lleol. Mae angen nodi atebion effeithiol eraill ar gyfer mynediad i farchnadoedd;
- Nid yw'r Rhaglen Gynorthwyo Allforio'n cynorthwyo cwmnïau ynghylch mynd i mewn i gadwynau cyflenwi, sy'n bwynt mynediad allweddol ar gyfer llawer o gynhyrchion canolog;
- Mae'r Rhaglen bresennol wedi darparu cymorth i nifer sylweddol fwy o allforwyr profiadol na chwmnïau nad ydynt yn allforio. Byddai symudiad at gefnogi mwy o gwmnïau nad ydynt yn allforio'n gwella ychwanegedd y Rhaglen yn sylweddol;
- Mae Cenadaethau Masnach yn canolbwyntio'n bennaf ar farchnadoedd sefydledig (sy'n darparu cyfleodd marchnad gwarantedig), nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth gyfleoedd ar gyfer marchnadoedd newydd a galluogi technolegau; ac
- Mae angen mynd i'r afael â phroblemau penodol ynghylch adnoddau sy'n perthyn i gyrchu marchnadoedd datblygol, sydd, oherwydd eu natur a'u pellter o Gymru, angen amser a chymorth ariannol ychwanegol i ddatblygu cyfleoedd marchnad. Mae cyfleoedd i annog microgwmnïau a chwmnïau bach i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio/cydweithredu er mwyn mynd i mewn i farchnadoedd targed.

## 5. Argymhellion

5.1 Dylai'r Rhaglen gael ei chefnogi yn y cyfnod cyllido nesaf yn amodol ar fabwysiadu'r argymhellion dilynol:

**Argymhelliad 1:** Dylai fod cynnydd o ran cymorth gweinyddol ar gyfer y Rhaglen â'r unig swyddogaeth o sicrhau bod y tasgau dilynol yn cael eu cwblhau ar sylfaen misol:

- Datlygu ac wedyn poblogi system gynhwysfawr o reoli cysylltiadau cwsmeriaid, sy'n cipio'r wybodaeth ddilynol (yn unol â gofynion adrodd WEFO):
  Enw, Lleoliad, Sector, Graddfa a throsiant yr holl gyfranogwyr;
  Manylion ynghylch yr holl ymyriadau cymorth (gan gynnwys amseru);
  Manylion ynghylch yr holl gymorth ariannol; a
  Manylion ynghylch gwybodaeth fonitro benodol o fuddiolwyr (gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol).

**Argymhelliad 2:** Dylai Cofrestr Risg gael ei datblygu a'i chytuno ag WEFO. Dylai hon gael ei hadolygu gan y Tîm Rheoli Rhaglen ar sylfaen fisol ag unrhyw amrywiannau/camau gweithredu lliniarol yn cael eu hadrodd wrth WEFO yn yr Adroddiad Chwarterol;

**Argymhelliad 3:** Dylai Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu gael ei datblygu a'i chytuno ag WEFO, a dylai gael ei hadolygu wedyn gan y Tîm Rheoli Rhaglen ar sylfaen fisol ag unrhyw amrywiannau/camau gweithredu lliniarol yn cael eu hadrodd wrth WEFO yn yr Adroddiad Chwarterol;

**Argymhelliad 4:** Dylai'r Tîm Rheoli Rhaglen gydgysylltu ag WEFO a'r Tîm CCT er mwyn datblygu nifer o dargedau ychwanegol a fydd yn arddangos gwerth ychwanegol y Rhaglen h.y.

- Nifer o allforwyr am y tro cyntaf;
- Nifer o farchnadoedd a gyrchwyd am y tro cyntaf;
- Cyfanswm Gwerthiannau Allforio;
- Cyfanswm Gwerthiannau Allforio mewn marchnadoedd newydd;
- Cyfanswm y Swyddi a Grëwyd
- Nifer y cyfranogwyr o adrannau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y Gymuned; ac
- Nifer y cynhyrchion/prosesau newydd a ddatblygwyd yn benodol i gyrchu marchnadoedd allforio newydd.

**Argymhelliad 5:** Dylai'r Tîm Rheoli Rhaglen gydgysylltu ag WEFO ac CCT er mwyn datblygu a gweithredu proses gadarn o Fonitro a Gwerthuso'r Rhaglen. Dylai hon gynnwys:

- Casglu gwybodaeth linell sylfaen ar gyfer cyfranogwyr;
- Adrodd chwarterol yn ôl yr holl dargedau;
- Cylch Gorchwyl ar gyfer Gwerthusiad Canol Tymor (ar Flwyddyn 3); a
- Chylch Gorchwyl ar gyfer Gwerthusiad Terfynol (ar Flwyddyn 6); a

- Dylid asesu cydymffurfiad â'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso a gytunwyd ar sylfaen reolaidd yn ystod y broses o weithredu'r rhaglen;

**Argymhelliad 6:** Dylai'r Rhaglen ganolbwyntio ar gefnogi allforwyr am y tro cyntaf a dylid gosod targed mewn cysylltiad â'r nifer o allforwyr am y tro cyntaf a fydd yn cael eu cefnogi;

**Argymhelliad 7:**Dylai'r Tîm Rheoli Rhaglen gydgysylltu ag Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â datblygu economaidd er mwyn dangos y ffordd i'r Rhaglen i allforwyr am y tro cyntaf;

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru ymgynnull grŵp o ymarferwyr er mwyn nodi tueddiadau/marchnadoedd newydd i hysbysu calendr cenadaethau masnach;

**Argymhelliad 9:** Dylid adolygu cymorth o fewn y farchnad i farchnadoedd datblygol gan ddarparu mwy o gymorth ariannol ar gyfer nodi rhwydweithiau o asiantau cyflenwi mewn marchnadoedd targed;

**Argymhelliad 10:** Er mwyn caniatáu mwy o fynediad i farchnadoedd datblygol gan ficrogwmnïau a chwmnïau bach, dylid darparu cymorth i ddatblygu trefniadau cydweithredu/partneriaeth â BBaChau a leolir yng Nghymru sy'n targedu'r un marchnadoedd; ac

**Argymhelliad 11:** Argymhellir yr ystyrir cymorth cadwyn gyflenwi mewn unrhyw Raglen newydd er mwyn i gynhyrchwyr Cymreig o nwyddau canolog allu cyrchu cyfleodd caffael allweddol.

**Gwerthusiad Terfynol o'r Rhaglen Gynorthwyo Allforio**

**Public and Corporate Economic Consultants (PACEC)**

Coates, J. (2017). Gwerthusiad Terfynol o'r Rhaglen Gynorthwyo Allforio. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 45/2017.
Ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-export-assist-programme/?lang=cy

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Jo Coates
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 5540

E-bost: joanne.coates@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-7560-1